



I:

Sefydliadau addysg uwch yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau addysg uwch dynodedig
Sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau addysg uwch dynodedig
Darparwyr eraill sy'n darparu cyrsiau addysg uwch dynodedig
Y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr
Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS)
Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Grŵp Rhanddeiliaid Cyllid Myfyrwyr Cymru
Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Prifysgolion Cymru
Colegau Cymru
a phartïon eraill â buddiant

Tachwedd 2017

Annwyl Gydweithiwr

CYMORTH AR GYFER MYFYRWYR ADDYSG UWCH AC UCHAFSWM FFIOEDD DYSGU

NEWIDIADAU SYDD I'W CYNNWYS YN Y RHEOLIADAU CYMORTH I FIFYRWYR AR GYFER BLWYDDYN ACADEMAIDD 2018/19

Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018") wrthi'n cael eu drafftio, ac os ydynt yn dod i rym byddant yn darparu cymorth ar gyfer myfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ac yn dilyn cwrs addysg uwch dynodedig. Bydd Rheoliadau 2018 yn berthnasol i ddarparu cymorth ar gyfer myfyrwyr newydd mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar 1 Awst 2018 neu ar ôl y dyddiad hwnnw ('BA 2018/19'). Bydd y rheoliadau presennol (Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Cymru) 2017) ("Rheoliadau 2017") yn cael eu diwygio a byddant yn berthnasol i ddarparu cymorth ar gyfer myfyrwyr sy'n parhau i ddilyn cyrsiau a ddechreuodd cyn 1 Awst 2018.

Bydd Rheoliadau 2018 yn wahanol i Rheoliadau 2017 gan y byddant yn ymgorffori nifer o newidiadau polisi a newidiadau technegol; mae manylion y newidiadau hyn i'w gweld yn yr atodiad isod.



YMHOLIADAU

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynglŷn â Rheoliadau 2018 neu os hoffech chi wneud sylw ar yr Hysbysiad Gwybodaeth hwn, dylech chi ysgrifennu i'r Is-adran Addysg Uwch yn y cyfeiriad isod neu anfon e-bost i (HEPolicy@llyw.cymru).

Trosolwg Mae'r ymarferiad ymgysylltu hwn yn gofyn am safbwyntiau ar y newidiadau polisi a'r newidiadau technegol arfaethedig i ddeddfwriaeth bresennol cymorth i fyfyrwyr sydd i'w cynnwys yn Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018.

Cynulleidfa Sefydliadau Addysg Uwch; Sefydliadau Addysg Bellach; Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr; y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr; y Brifysgol Agored yng Nghymru; partion eraill â buddiant.

Sut i ymateb Dylai rhanddeiliaid anfon unrhyw sylwadau ar y cynigion i Lywodraeth Cymru erbyn **28 Rhagfyr 2017**. Gellir e-bostio sylwadau i'r cyfeiriad isod:
HEPolicy@llyw.cymru.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig **Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais.**

Mae copi o Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru ar gael ar y wefan hon:
www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk

Manylion Cyswllt Mae rhagor o wybodaeth am yr ymarferiad ymgysylltu cyfyngedig hwn ar gael drwy e-bostio HEPolicy@llyw.cymru neu drwy ysgrifennu i:

Yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays,
Caerdydd, CF10 3NQ

Diogelu Data Sut y byddwn yn defnyddio'ch safbwyntiau a'ch gwybodaeth:

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion

i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, dylech chi nodi hynny ar ffurf ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad i ddatgelu'r wybodaeth.

Crynodeb o newidiadau i reoliadau cymorth i fyfyrwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19

Disgwylir mai Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ('Rheoliadau 2018') fydd teitl y set nesaf o reoliadau cymorth i fyfyrwyr.

Pecyn Ariannol

1. Uchafswm Ffioedd Dysgu

Ar 18 Hydref cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y byddai'r uchafswm ffioedd dysgu yng Nghymru yn aros yn £9,000 ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19.

2. Newidiadau i gymorth ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr sy'n dechrau eu cwrs ar neu ar ôl 1 Awst 2018

Ers cyflwyno uchafswm o £9,000 ar gyfer ffioedd dysgu yn 2012, mae myfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru wedi gallu manteisio ar gymorth ariannol sy'n golygu nad ydynt yn ysgwyddo'r ffioedd hyn ymlaen llaw. Mae'r cymorth hwn wedi bod ar ffurf Grant Ffioedd Dysgu a Benthyciad Ffioedd Dysgu. Mewn ymateb i ganfyddiadau Adolygiad Diamond, o 2018/19 ymlaen, bydd y trefniadau cymorth presennol yn cael eu disodli gan y pecyn cymorth canlynol:

Ar gyfer myfyrwyr israddedig llawn-amser a rhan-amser (gan gynnwys myfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrсияu dysgu o bell):

- Bydd y Grant Ffioedd Dysgu presennol yn cael ei ddisodli gan fenthyciad i fyfyrwyr â chymhorthdal ychwanegol, hyd at uchafswm y ffioedd dysgu sy'n berthnasol yn 2018/19. Bydd y benthyciad hwn ar gael i fyfyrwyr lle bynnag y maent yn astudio yn y DU;
 - Bydd benthyciadau ffioedd dysgu ar gael o hyd ar gyfer myfyrwyr rhan-amser cymwys sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ac yn astudio ar ddwysedd o 25% o leiaf.
- #### 3. Newidiadau i gymorth cynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr cymwys sy'n dechrau eu cwrs ar 1 Awst 2018 neu ar ôl hynny (gan gynnwys myfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrсияu dysgu o bell llawn-amser a rhan-amser)

O 2018/19 ymlaen, bydd y cymorth cynhaliaeth canlynol ar gael:

- Bydd grant cynhaliaeth cyffredinol gwerth £1,000 nad yw'n seiliedig ar brawf modd ar gael i bob myfyriwr cymwys sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar

Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN04 /2017)

ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs. Bydd y grant ar gael ar sail pro-rata ar gyfer myfyrwyr rhan-amser (h.y. bydd myfyrwyr sy'n astudio ar ddwysedd o 50% yn derbyn £500).

- Bydd grant ychwanegol ar sail prawf modd ar gael i helpu myfyrwyr gyda chostau byw. Penderfynir ar swm y grant cynhaliaeth sy'n daladwy i fyfyrwyr llawn-amser wrth gymryd i ystyriaeth lle y mae'r myfyriwr yn byw, incwm ei aelwyd a ph'un a yw'n berson sy'n gadael gofal, a bydd mwy o arian ar gael i fyfyrwyr sy'n dod o'r cefndiroedd incwm isaf, cyn lleihau'n raddol hyd at drothwy o £59,200.
- Er y bydd yn debygol y bydd llawer o fyfyrwyr yn gymwys i dderbyn grant cynhaliaeth nad yw'n seiliedig ar brawf modd a grant cynhaliaeth sy'n seiliedig ar brawf modd, dylid nodi na fydd rhai categorïau o fyfyrwyr yn gymwys i dderbyn y naill na'r llall. Ymddengys y categorïau yn y paragraff isod (hynny yw paragraff 4).
- Pennir uchafswm y grant cynhaliaeth yn unol â'r lefel a argymhellwyd gan Adolygiad Diamond yn y lle cyntaf, a darperir benthyciad cynhaliaeth er mwyn sicrhau bod cyfanswm y cymorth cynhaliaeth yn adlewyrchu twf yn y Cyflog Byw Cenedlaethol.
- Bydd benthyciad cynhaliaeth nad yw'n seiliedig ar brawf modd ar gael i wneud iawn am y gwahaniaeth rhwng uchafswm y cymorth cynhaliaeth a swm y grant cynhaliaeth y mae gan fyfyriwr hawl iddo.
- Bydd myfyrwyr llawn-amser ag incwm aelwyd hyd at £18,370 yn derbyn y grant yn llawn. Bydd cyfanswm y cymorth cynhaliaeth (grant a benthyciad) ar gyfer myfyrwyr llawn-amser 15% yn llai na'r lefel 'oddi cartref' safonol ar gyfer myfyrwyr sy'n byw yng nghartref y teulu tra eu bod yn astudio, a 25% yn fwy ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio oddi cartref yn Llundain (yn debyg i'r gwahaniaeth presennol ar sail lleoliad).
- Bydd myfyrwyr rhan-amser yn derbyn, ar sail pro-rata, fersiwn wedi'i addasu o'r cymorth cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyrwyr israddedig llawn-amser. Penderfynir ar swm y grant cynhaliaeth sy'n daladwy i fyfyrwyr rhan-amser wrth gymryd i ystyriaeth incwm aelwyd y myfyriwr, p'un a yw'n berson sy'n gadael gofal a pha mor ddwys yw ei astudiaethau (h.y. cyfran o'r grant cynhaliaeth gwerth £1,000 nad yw'n seiliedig ar brawf modd, a grant ychwanegol ar sail prawf modd hyd at uchafswm sy'n seiliedig ar £6,000 cyfwerth ag amser llawn, ond bydd y grant llawn ar gael hyd at uchafswm incwm aelwyd o £25,000).
- Bydd y grantiau a'r lwfansau penodol ar gyfer myfyrwyr israddedig, sef y Grant Gofal Plant, y Grant Dibynyddion Oedolion, y Lwfans Dysgu i Rien i a'r Lwfans i Fyfyrwyr Anabl, ar gael o hyd.

4. Cymhwysedd ar gyfer y grant cynhaliaeth


Ni fydd myfyrwyr sy'n perthyn i un o'r categorïau isod yn gymwys i dderbyn grant cynhaliaeth (gan gynnwys yr elfen o'r grant cynhaliaeth nad yw'n seiliedig ar brawf modd).

- mae'r myfyriwr cymwys yn garcharor (yn ddarostyngedig i rai eithriadau);
- mae'r myfyriwr cymwys yn fyfyriwr o un o wledydd yr UE nad yw'n bodloni'r meini prawf isod;
 - mae'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf;
 - bu'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig am dair blynedd yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac
 - os oedd y myfyriwr yn preswyllo fel arfer yn y DU at ddibenion addysg lawn amser yn bennaf, roedd yn preswyllo fel arfer yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir cyn preswyllo fel arfer yn y DU.
- mae'r flwyddyn academaidd yn flwyddyn pan fydd y myfyriwr yn gymwys i wneud cais am fwrsariaeth gofal iechyd neu lwfans gofal iechyd yr Alban a gyfrifir ar sail incwm y myfyriwr waeth a yw'r cyfrifiad yn arwain at gyfanswm o ddim;
- mae'r cwrs presennol yn gwrs mynediad carlam i raddedigion;
- mae'r myfyriwr cymwys yn ymgymryd â blwyddyn academaidd cwrs rhyngosod ac nid yw'r cyfnodau astudio llawn-amser yn llai na 10 wythnos yn eu crynswth (er bod rhai eithriadau i hyn).

5. Cymorth i fyfyrwyr israddedig llawn-amser yn ôl incwm aelwyd

Mae'r siart a'r tabl canlynol yn dangos y cymorth statudol rhagamcanol (yn ôl lefelau incwm aelwydydd) ar gyfer ffioedd dysgu a chynhaliaeth o 2018/19 ymlaen (ar gyfer myfyrwyr sy'n byw oddi cartref, y tu allan i Lundain).

Cymorth i fyfyrwyr



Incwm	Benthyciad Ffioedd Dysgu*	Cymorth Cynhaliaeth	
		Grant	Benthyciad
<£18,370	£9000+	£8,100	£900
£25,000	£9000+	£6,947	£2,053
£35,000	£9000+	£5,208	£3,792
£50,000	£9000+	£2,600	£6,400
>£60,000	£9000+	£1,000	£8,000

* Mae symiau ffioedd dysgu yn seiliedig ar ffioedd o £9,000; bydd rhai sefydliadau'n gallu codi symiau mwy.

Newidiadau polisi arfaethedig

6. Dileu'r gyfradd dramor

Mae dadansoddiadau'n dangos y dylai'r pecyn cynhaliaeth 'oddi cartref (y tu allan i Lundain)' safonol, ar sail Cyflog Byw Cenedlaethol y DU, ddarparu cyllid digonol ar gyfer costau byw yn y rhan fwyaf o gyrchfannau astudio byd-eang posibl. Felly, cynigir dileu'r gyfradd dramor o 2018 ymlaen a darparu'r pecyn 'oddi cartref' ar gyfer myfyrwyr cymwys.

7. Dwysedd astudiaeth ran-amser

Bydd benthyciadau ffioedd dysgu yn cael eu darparu i fyfyrwyr cymwys sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ac yn astudio ar ddwysedd o 25% neu fwy. Dyma'r cynigion:

- Bydd cyfnod cymhwysedd myfyriwr yn gyfyngedig i hyd arferol cwrs wedi'i rannu â'r dwysedd astudio;
- Gall y dwysedd newid bob blwyddyn;

- Bydd myfyriwr yn derbyn cymorth rhan-amser hyd at uchafswm penodol, ar sail ei ddwysedd astudio; yn gyffredinol, ni ddylai myfyriwr gael ei ariannu am fwy o gredydau y byddai eu hangen arno i gwblhau'r cwrs yn llawn-amser. Ni fydd myfyrwyr yn derbyn cymorth ar gyfer blynyddoedd pan fyddant yn astudio ar ddwysedd o lai na 25%, ac ni fydd credydau a astudiwyd yn y blynyddoedd hynny yn cael eu cynnwys wrth gyfrif y 'balans' terfynol o gymorth/credydau;
- Ni chaiff blynyddoedd ychwanegol eu cynnwys ar sail rhesymau personol cryf gan fod hyblygrwydd digonol eisoes ar waith ar gyfer myfyrwyr rhan-amser.

8. Grant Cymorth Arbennig (myfyrwyr sy'n parhau)

Ar hyn o bryd, efallai y gall myfyrwyr sydd ar gwrs llawn-amser wneud cais am Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (grant cynhaliaeth) neu am Grant Cymorth Arbennig. Gall myfyrwyr fod yn gymwys ar gyfer Grant Cymorth Arbennig yn hytrach na Grant Dysgu Llywodraeth Cymru os ydynt yn bodloni meini prawf penodol o safbwynt statws a/neu hawl i fudd-daliadau penodol. Mae'r Grant Cymorth Arbennig ar gyfer costau sy'n gysylltiedig ag astudio; e.e. llyfrau, cyfarpar cyrsiau a theithio. Mae'r symiau, y graddfeydd a'r trothwyon ar gyfer y Grant Cymorth Arbennig yr un fath â Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, ac mae uchafswm o £5,161 ar gael. Fodd bynnag, yn wahanol i Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, nid yw'r Grant Cymorth Arbennig yn effeithio ar swm y benthyciad cynhaliaeth y mae gan fyfyrwyr hawl iddo.

9. Taliad Cymorth Arbennig (myfyrwyr newydd) (gan gynnwys myfyrwyr sy'n ymgymryd â chysiau dysgu o bell llawn-amser a rhan-amser)

Y bwriad yw parhau i gynnwys y Grant Cymorth Arbennig (sydd wedi ei ail-enwi yn Daliad Cymorth Arbennig ar gyfer 2018) fel rhan o'r pecyn cymorth amser llawn newydd, a bydd yr uchafswm yn £5,161 o hyd, sy'n cynnwys elfen gyffredinol nad yw'n seiliedig ar brawf modd o £1,000. O ran myfyrwyr llawn-amser sy'n gymwys ar gyfer Taliad Cymorth Arbennig, bydd swm y grant y maent yn ei gael yn effeithio ar swm y benthyciad cynhaliaeth y mae ganddynt hawl iddo, ond ni fydd yn cael ei leihau i swm sy'n is na'r swm sy'n gyfwerth â chyfradd y benthyciad gostyngol perthnasol. Hefyd, cynigir bod myfyrwyr rhan-amser cymwys yn cael gwneud cais am Daliad Cymorth Arbennig o 2018/19 ymlaen ar y sail ei fod yn hyrwyddo mynediad cyfartal i gymorth. Bydd yr elfen gyffredinol nad yw'n seiliedig ar brawf modd yn cael ei rhoi ar sail pro rata i fyfyrwyr rhan-amser (h.y. bydd myfyrwyr sy'n astudio ar lefel dwysedd 50% yn cael £500).

10. Dileu cyfraniadau asesedig

O dan y trefniadau presennol, mae cyfraniadau asesedig yn sylfaen i ddidyniadau ar sail prawf modd yn erbyn y benthyciad cynhaliaeth a grantiau a dargedir (Grant Dibynyddion Oedolion, Lwfans Dysgu i Rieni, Grant Gofal Plant a Grant Teithio). Nid yw cyfraniadau asesedig yn berthnasol i'r pecyn cynhaliaeth newydd: ar gyfer

2018/19, mae costau cynhaliaeth yn seiliedig ar y Cyflog Byw Cenedlaethol ac nid yw'r lefel cymorth cyffredinol yn destun didyniadau ar sail incwm.

Felly, bwriedir dileu darpariaeth yn ymwneud â chyfraniadau asesedig yn Rheoliadau 2018. Dros y trothwy incwm uchaf o £59,200 ar gyfer y grant cynhaliaeth ar sail prawf modd, bydd gostyngiad safonol yn erbyn unrhyw gais am grant teithio. Bydd myfyrwyr ar eu hennill yn sgil y newid hwn, sy'n symleiddio'r trefniadau cymorth ymhellach. Credir y bydd £1,000 yn swm priodol i'w osod fel y gostyngiad safonol.

11. Dileu cyfraniadau a rennir gan rieni ar aelwydydd â dau fyfyrwr

Ar hyn o bryd, os yw un incwm yr aelwyd yn cael ei ddefnyddio i asesu hawl myfyrwyr, mae'r cyfraniad asesedig sy'n daladwy yng nghyswllt y myfyriwr cymwys yn cael ei rannu â nifer yr holl fyfyrwyr cymwys ar yr aelwyd. Mae'r prawf modd yn gweithio drwy gyfrifo cyfraniad asesedig ar gyfer incwm aelwyd dros lefel benodol, gan gymhwyso'r cyfraniad hwnnw i leihau hawl y myfyrwyr i gymorth. Mae hyn yn sicrhau nad oes angen i rieni sydd â mwy nag un plentyn mewn sefydliad addysg uwch gyfrannu mwy o'i gymharu â rhieni sydd â dim ond un plentyn mewn sefydliad addysg uwch.

Gan y bydd cyfraniadau asesedig yn cael eu dileu ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio o 2018/19 ymlaen, nid oes angen datblygu proses rhannu cyfraniadau ar gyfer y cynhyrchion cymorth i fyfyrwyr newydd. Felly, bydd y rheol asesu ariannol, sy'n rhannu cyfraniad aelwyd pan fydd mwy nag un myfyriwr yn cael ei asesu o dan incwm yr un noddwr, yn cael ei dileu ar gyfer pob myfyriwr o 2018/19 ymlaen. Er mwyn lleihau effaith y newid hwn ar aelwydydd â myfyrwyr lluosog, diystyrir lefel uwch o incwm aelwyd os oes mwy nag un myfyriwr ar yr aelwyd. Bydd y rheol yn ymwneud â rhannu cyfraniadau yn berthnasol o hyd i fyfyrwyr presennol sy'n parhau ar gyrsgiau a ddechreuodd cyn 1 Awst 2018 gan eu bod wedi'u hasesu eisoes.

12. Grantiau ar gyfer dibynyddion

Gall myfyrwyr sydd â dibynyddion sy'n oedolion neu'n blant dderbyn cymorth ar gyfer costau ychwanegol penodol. Mae hawl myfyriwr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru i Grant ar gyfer Dibynyddion yn cael ei chyfrifo ar sail incwm gweddilliol ei bartner a'i ddibynyddion ar ôl didynnu ymrwymadau ariannol rhesymol, fel rhent/morgais, yswiriant neu dreth gyngor. Ar ôl cyfrifo'r incwm gweddilliol, mae'r canlynol yn cael eu diystyru er mwyn lleihau'r incwm gweddilliol ymhellach. Mae'r rhain yn dibynnu ar amgylchiadau'r myfyriwr fel a ganlyn:

- £1,159 ar gyfer myfyriwr heb unrhyw blant dibynnol;
- £3,473 ar gyfer pâr ag un plentyn;
- £4,632 ar gyfer pâr â dau o blant neu fwy;

Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN04 /2017)

- £4,632 ar gyfer unig riant ag un plentyn;
- £5,797 ar gyfer unig riant â dau o blant neu fwy.

Wedyn, defnyddir yr incwm gweddilliol sydd dros ben i benderfynu a oes gan y myfyriwr hawl i grantiau ar gyfer dibynyddion. Os yw'r incwm gweddilliol yn fwy na chyfanswm crynswth y grantiau ar gyfer dibynyddion y gwnaed cais amdanynt, nid oes gan y myfyriwr hawl i unrhyw grantiau ar gyfer dibynyddion. Os yw'r incwm gweddilliol sydd dros ben yn £0 neu'n llai na chyfanswm crynswth y grantiau ar gyfer dibynyddion y gwnaed cais amdanynt, bydd gan y myfyriwr hawl i bob un o'r grantiau ar gyfer dibynyddion, neu i nifer llai ohonynt, gan ddibynnu ar yr incwm sydd dros ben.

Ar ddiwedd y flwyddyn academiaidd, mae'n rhaid cadarnhau'r ymrwymadau a gwneud unrhyw gywiriadau os yw'r symiau a ddatganwyd yn wreiddiol yn wahanol. Proses sy'n cael ei chwblhau â llaw yw hon, gan arwain at ailasesu. Mae'n bosibl y bydd rhai myfyrwyr wedi derbyn gormod o daliadau a bod angen iddynt ad-dalu unrhyw symiau perthnasol i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr.

Bwriedir disodli'r dull gweithredu presennol â dull gweithredu sy'n defnyddio diystyriad safonol ar gyfer myfyrwyr sy'n ymrestru o 2018/19 ymlaen. O dan y cynnig hwn, mae'n bosibl na fydd myfyrwyr sydd ag incwm aelwyd uwch yn gallu derbyn grantiau ar gyfer dibynyddion mwyach, gan ddibynnu ar y grantiau y maent wedi gwneud cais amdanynt a'u hamgylchiadau personol.

Hefyd, byddai cyflwyno'r newid hwn yn cefnogi un o egwyddorion Adolygiad Diamond; y dylai'r system gymorth fod mor syml a thryloyw â phosibl ar gyfer ymgeiswyr a myfyrwyr, ac y dylai fod yn hawdd i'w gweinyddu.

13. Cymorth ar gyfer pobl sy'n gadael gofal

Yn gyffredinol, roedd ymatebion i'r ymgynghoriad diweddar ar gymorth i fyfyrwyr yn cefnogi'r cynnig y dylai Rheoliadau 2018 wneud darpariaeth y byddai pobl sy'n gadael gofal yn gymwys i dderbyn y pecyn cymorth cynhaliaeth mwyaf hael o safbwynt y cydbwysedd rhwng grantiau/benthyciadau ("Cymorth Pobl sy'n Gadael Gofal").

Yn unol ag ysbryd Adolygiad Diamond, bwriedir sicrhau bod Rheoliadau 2018 yn gwneud darpariaeth i bobl sy'n gadael gofal dderbyn y grant cynhaliaeth llawn, heb ystyried eu hincwm, ac unrhyw gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo. Hynny yw, os ydynt yn derbyn unrhyw gymorth ariannol gan eu hawdurdod lleol, ni fyddai hynny'n cael ei ystyried at ddibenion asesu eu hawl i grantiau cynhaliaeth o dan Rheoliadau 2018. Yn ymarferol, yr awdurdod lleol a fydd yn gyfrifol am benderfynu a oes angen iddo ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer person sy'n gadael gofal, o ystyried y bydd gan yr unigolyn hawl i dderbyn Cymorth Pobl sy'n Gadael Gofal.

Bwriedir dibynnu'n bennaf ar y diffiniadau o gategoriâu o bobl sy'n gadael gofal sy'n cael eu nodi yn adran 104 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fel sail i ddiffinio person sy'n gadael gofal yn Rheoliadau 2018. Fodd bynnag, cynigir, er mwyn bod yn gymwys i gael Cymorth Pobl sy'n Gadael Gofal, bod yn rhaid i unigolyn fod wedi derbyn gofal am gyfanswm o 13 wythnos rhwng 14 ac 16 oed, a rhaid iddo fod o dan 25 oed ar ddechrau'r cwrs a chydol y cwrs. Cyflwynir y pecyn rhan-amser ar sail pro-rata, fel sy'n wir am fyfyrwyr eraill, ar sail lefel dwysedd yr astudiaeth.

Ni fydd pobl sy'n gadael gofal yn destun prawf modd nes eu bod yn 25 oed, waeth beth yw eu statws priodasol. Pan fyddant yn 25 oed ac yn hŷn, byddant yn cael eu disgrifio fel myfyrwyr annibynnol, a bydd incwm yr aelwyd yn cael ei ystyried.

Bydd angen i fyfyrwr ddarparu tystiolaeth ategol i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr i brofi ei fod yn y system ofal ar ddechrau ei gwrs (yn unol â diffiniad Rheoliadau 2018). Os yw myfyrwr yn byw yng Nghymru a'i fod yn derbyn gofal gan awdurdod lleol y tu allan i Gymru, bydd yn cael ei drin fel rhywun sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru.